Y Pwyllgor Cymunedau, Cydraddoldeb a Llywodraeth Leol
Communities, Equality and Local Government Committee
CELG(4)-13-15 Papur 8 Atodiad 1 / Paper 8 Annexe 1

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

# Bil yr Amgylchedd Hanesyddol (Cymru)

Datganiadau o Fwriad y Polisi

Mai 2015

# 1. Cyflwyniad

1.1 Mae’r datganiadau hyn o fwriad y polisi yn nodi ein polisi cyfredol o ran is-ddeddfwriaeth mewn perthynas â Bil yr Amgylchedd Hanesyddol (Cymru). Caiff ymgynghoriad ei gynnal ar bob maes polisi ac felly mae'n bosibl y byddant yn newid. Mae'r datganiadau hyn wedi'u paratoi i gynorthwyo'r pwyllgor sy'n gyfrifol am graffu ar Fil yr Amgylchedd Hanesyddol (Cymru).

1.2 Mae Llywodraeth Cymru o'r farn fod y pwerau is-ddeddfwriaeth hyn yn hanfodol er mwyn rhagnodi materion o fanylder gweithdrefnol a sicrhau hyblygrwydd ar gyfer materion y gellir bod angen eu diwygio er mwyn sicrhau gweithrediad effeithiol.

1.3 Mae'r weithdrefn a gynigir ar gyfer pob pŵer is-ddeddfwriaeth wedi'i nodi'n fanwl ym mhennod 5 o'r Memorandwm Esboniadol. Mae'r canllawiau a gyhoeddwyd gan y Cwnsler Cyffredinol ym mis Ionawr 2012 wedi cael eu dilyn i sicrhau ffordd gyson o weithio o ran gweithdrefnau'r Cynulliad.

1.4 Mae drafft o'r canllawiau statudol ar gofnodion amgylchedd hanesyddol a fydd yn cael eu cyhoeddi o dan adran 35 o Fil yr Amgylchedd Hanesyddol (Cymru) hefyd wedi ei baratoi i gynorthwyo â gwaith craffu'r Pwyllgor. Mae’r drafft hwn wedi cael ei rannu'n anffurfiol gyda phartneriaid allweddol megis Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru, ymddiriedolaethau archaeolegol Cymru a Chomisiwn Brenhinol Henebion Cymru. Caiff ymgynghoriad ffurfiol ar y canllawiau ei gynnal tua diwedd 2015 / dechrau 2016, unwaith y bydd darpariaethau'r Bil yn derfynol.

## 2. Adolygu penderfyniadau rhestru neu gofrestru penodol a wneir gan Weinidogion Cymru, ac ymgynghori arnynt

### Pwerau

2.1. Mae Rhan 2, adran 3 o Fil yr Amgylchedd Hanesyddol (Cymru) yn cyflwyno adrannau 1AA(6), 1AD(2) ac 1AE(6) newydd yn Neddf Henebion Hynafol ac Ardaloedd Archaeolegol 1979 (‘Deddf 1979’). Mae Atodlen 1 i'r Bil yn cyflwyno paragraffau 1(1) a 5 yn atodlen A2 newydd Deddf 1979.

2.2. Mae Rhan 3, adran 24 o Fil yr Amgylchedd Hanesyddol (Cymru) yn cyflwyno adrannau 2A(5), 2D(6) a 28B(2) newydd yn Neddf Cynllunio (Adeiladau Rhestredig ac Ardaloedd Cadwraeth) 1990 (‘Deddf 1990’). Mae Atodlen 2 o'r Bil yn cyflwyno paragraffau 1(1) a 5 yn atodlen 1B newydd Deddf 1990.

### Disgrifiad

2.3. Mae Rhan 2, adran 3 ac Atodlen 1 o Ddeddf yr Amgylchedd Hanesyddol (Cymru) yn rhoi dyletswydd ar Weinidogion Cymru i ymgynghori â phersonau priodol, gan gynnwys y perchennog a'r meddiannydd, pan fyddant yn cynnig ychwanegu, diddymu neu ddiwygio'n sylweddol gofnod yn y gofrestr henebion. Mae Adran 1AA(6) yn galluogi Gweinidogion Cymru, drwy reoliadau, i ychwanegu at y categorïau o bobl briodol a bennir yn y Bil.

2.4. Mae'r Bil hefyd yn rhoi'r hawl i berchennog neu feddiannydd yr hawl, mewn amgylchiadau penodol, i ofyn i Weinidogion Cymru adolygu penderfyniad i gofrestru heneb neu wneud diwygiad sylweddol i gofnod yn y gofrestr henebion. Caiff Gweinidogion Cymru benodi person i gynnal adolygiad o'r fath. Caiff y rheoliadau gynnwys darpariaethau ynghylch:

- y sail y caiff cais am adolygiad ei wneud arni;
- yr wybodaeth y mae'n rhaid ei darparu i Weinidogion Cymru, neu y caiff Gweinidogion Cymru ofyn amdani, mewn cysylltiad â chais;
- ar ba ffurf ac ym mha fodd y mae'n rhaid gwneud cais;
- y cyfnod y mae'n rhaid gwneud cais ynddo;
- y weithdrefn y mae'n rhaid ei dilyn mewn perthynas ag adolygiad;
- cynnal ymchwiliadau a gwrandawiadau lleol cyhoeddus;
- costau y gellid bod angen eu talu mewn cysylltiad ag adolygiad; a

- y categorïau o adolygiadau y mae penderfyniad arnynt i gael ei wneud gan berson penodedig ar ran Gweinidogion Cymru.

2.5. Mae Rhan 3, adran 24 ac Atodlen 2 o'r Bil yn cyflwyno mesurau tebyg ar gyfer adeiladau rhestredig. Rhaid i Weinidogion Cymru ymgynghori â'r perchennog a phobl briodol eraill wrth gynnig i ychwanegu neu ddiddymu cofnod ar y rhestr o adeiladau o ddiddordeb pensaernïol neu hanesyddol arbennig. Mae adran 2A(5) yn caniatáu i Weinidogion Cymru, drwy reoliadau, ychwanegu at y categorïau o bobl briodol a bennir yn y Bil.

2.6. Mae'r darpariaethau yn rhoi'r hawl i berchnogion a meddianwyr, mewn amgylchiadau penodol, i wneud cais i Weinidogion Cymru adolygu penderfyniad i restru adeilad. Caiff Gweinidogion Cymru benodi person i gynnal adolygiad o'r fath. Caiff y rheoliadau gynnwys darpariaethau ynghylch:

- y sail y caiff cais am adolygiad ei wneud arni;
- ar ba ffurf ac ym mha fodd y mae'n rhaid gwneud cais;
- yr wybodaeth sydd i gael ei rhoi i Weinidogion Cymru, neu y gall Gweinidogion Cymru ofyn amdani, mewn cysylltiad â chais;
- y cyfnod y mae'n rhaid gwneud cais ynddo; a
- y categorïau o adolygiadau y mae penderfyniad i gael ei wneud arnynt gan berson penodedig ar ran Gweinidogion Cymru.

**Bwriad y Polisi**

2.7. Cyflwyno hyblygrwydd i'r categorïau o bobol y bydd Gweinidogion Cymru yn ymgynghori â hwy cyn dynodi ased, er mwyn i'r bobl hynny sydd â diddordeb yn yr adeilad neu'r heneb gael cyfle i gyfrannu at y broses ymgynghori ffurfiol.

2.8. Creu mecanwaith ar gyfer adolygu sy'n hyblyg ac sy’n ateb anghenion y cyhoedd a Gweinidogion Cymru. Bydd pennu'r trefniadau gweinyddol mewn rheoliadau yn darparu mecanwaith deddfwriaethol effeithiol ac effeithlon i Weinidogion Cymru ddiwygio'r gweithdrefnau ar sail profiad.

2.9. Yn amodol ar ymgynghoriad â rhanddeiliaid, nodir isod y bwriadau polisi cyfredol o ran y manylion sydd i gael eu rhagnodi mewn is-ddeddfwriaeth a chyfarwyddebau.

| **Henebion Cofrestredig** | |
|---|---|
| **Estyn y categorïau o bobl y mae'n rhaid ymgynghori â hwy cyn dynodi.** | |
| **Rhan 2, adran 3(1), sy'n mewnosod adran 1AA(6) i Ddeddf 1979** | |
| **Manylion** | **Bwriad y Polisi** |
| 1AA(6) Caiff Gweinidogion Cymru, drwy reoliadau, ychwanegu at y rhestr o bersonau priodol yn 1AA(3) a gwneud diwygiadau canlyniadol i'r Ddeddf os yw'n briodol. | Mae'r pŵer hwn i wneud rheoliadau yn galluogi Gweinidogion Cymru i bennu categorïau eraill o bobl y gallai fod diddordeb ganddynt yn yr heneb i ymgynghori â hwy yn ffurfiol cyn cofrestru. Os caiff categori ychwanegol o berson ei bennu, efallai y bydd angen diwygiadau canlyniadol i adrannau eraill o'r Bil, megis yr adrannau hynny sy'n delio â hysbysu ac adolygu. |
| **Adolygu penderfyniadau penodol i gofrestru heneb** | |
| **Rhan 2, adran 3(1), sy'n mewnosod adran 1AE(6)(a)–(g) newydd i Ddeddf 1979** | |
| **Manylion** | **Bwriad y Polisi** |
| 1AE(6)(a) Y sail y caiff cais am adolygiad ei wneud arni | Caiff y sail ar gyfer adolygiad ei chyfyngu i faterion sy'n ymwneud â'r meini prawf ar gyfer cofrestru.<br><br>Dylai fod yn bosibl ceisio adolygiad ar y sail bod:<br>• gwall ffeithiol wedi'i wneud wrth bennu'r safle fel un o bwysigrwydd cenedlaethol;<br>• lleoliad neu faint yr ardal wedi cael ei ddangos yn anghywir ar y map sy'n cyd-fynd â'r cofnod cofrestru; neu<br>• tystiolaeth sylweddol newydd nad oedd wedi cael ei hystyried yn flaenorol mewn perthynas â phwysigrwydd cenedlaethol yr heneb, er enghraifft, gwybodaeth newydd ar ddyddiad yr heneb sy'n gwneud gwahaniaeth sylweddol i'w bwysigrwydd cenedlaethol.<br><br>Nid y bwriad yw rhoi hawl i gael adolygiad ar y sail y bydd cofrestru yn cyfyngu ar y defnydd o'r tir neu'n arwain at ganlyniadau niweidiol i'r perchennog neu'r meddiannydd. |
| 1AE(6)(b) Yr wybodaeth y mae'n rhaid ei darparu i Weinidogion Cymru, neu y gall Gweinidogion Cymru ofyn amdani, mewn cysylltiad â chais. | Bydd Gweinidogion Cymru yn darparu ffurflen i berchennog/meddiannydd ei chwblhau i wneud cais am adolygiad o benderfyniad i ddynodi Bydd y ffurflen yn gofyn am wybodaeth megis ar ba sail y gwneir yr adolygiad, yr hysbysiad am y penderfyniad a pham fod y sawl sy’n gwneud y cais yn anghytuno â phenderfyniad Gweinidogion Cymru. |

| | |
|---|---|
| 1AE(6)(c) Y ffurf a'r modd y mae'n rhaid gwneud cais | Bydd y ceisydd yn gallu gwneud cais am adolygiad ar-lein neu'n ysgrifenedig gan ddefnyddio'r ffurflen a ddarperir gan Weinidogion Cymru. |
| 1AE(6)(d) Y cyfnod y mae'n rhaid gwneud cais ynddo. | Y bwriad yw y bydd rhaid gwneud cais am adolygiad o fewn 12 wythnos i benderfyniad Gweinidogion Cymru i gofrestru'r heneb. Bydd gan y person penodedig y disgresiwn i dderbyn cais hwyr, ond dim ond am resymau eithriadol iawn. |
| 1AE(6)(e) Y weithdrefn sydd i'w dilyn mewn cysylltiad ag adolygiad | Mae'r Bil yn ei gwneud yn ofynnol i adolygiadau gael eu cyflawni ar ffurf sylwadau ysgrifenedig, gwrandawiadau neu ymchwiliadau. Y person penodedig fydd yn cael penderfynu ar y weithdrefn ar gyfer penderfynu ar yr apêl. Rhagwelir y caiff rheolau tebyg i'r rheolau a ddefnyddir i lywodraethu apeliadau ceisiadau cynllunio eu defnyddio. Disgwylir, onid oes amgylchiadau arbennig, y byddai'r person penodedig yn ymweld â'r safle. |
| 1AE(6)(f) Cynnal ymchwiliadau a gwrandawiadau lleol cyhoeddus | Mae ymchwiliadau a gwrandawiadau lleol cyhoeddus yn debygol o ddilyn y gweithdrefnau sy'n llywodraethu gwrandawiadau ac ymchwiliadau caniatâd cynllunio. Rhagwelir y caiff y rhan fwyaf o adolygiadau eu cynnal ar sail sylwadau ysgrifenedig ac y bydd ymchwiliadau cyhoeddus yn anarferol. |
| 1AE(6)(g) Costau y gellid bod gofyn eu talu mewn cysylltiad ag adolygiad | Ni chodir tâl am wneud cais am adolygiad, ond bydd rhaid i geisydd dalu eu costau eu hunain. Fodd bynnag, gall parti wneud cais am ddyraniad o gostau ar y sail bod ymddygiad afresymol gan y parti arall wedi achosi costau diangen i'r person sy'n gwneud y cais am gostau. Gall amgylchiad o'r fath ddigwydd, er enghraifft, pan gaiff gwrandawiad ei ganslo yn hwyr gan fod apêl wedi ei dynnu yn ôl. |
| **Atodlen 1, sy'n mewnosod Atodlen A2, paragraff 1(1) a pharagraff 5 i Ddeddf 1979** | |
| **Manylion** | **Bwriad y Polisi** |
| 1(1) Y categorïau o adolygiadau y mae'n rhaid i benderfyniad gael eu gwneud arnynt gan berson penodedig | Bwriad Gweinidogion Cymru yw penodi'r Arolygiaeth Gynllunio i gynnal adolygiadau o'u penderfyniadau i gofrestru henebion.<br>Bydd pŵer i wneud rheoliadau'n nodi'r categorïau o adolygiadau y mae'n rhaid i benderfyniadau gael eu gwneud arnynt gan berson penodedig yn caniatáu hyblygrwydd yn y dyfodol i bennu'r person mwyaf priodol i gynnal yr adolygiadau. |
| 5 Cyfarwyddydau bod unrhyw beth sydd i gael ei wneud gan berson penodedig mewn cysylltiad ag adolygiad (heblaw am wneud penderfyniad) i gael ei wneud gan | Bydd hyn yn galluogi Gweinidogion Cymru i gyfarwyddo bod materion megis hysbysu am adolygiad, rhannu sylwadau / tystiolaeth a hysbysu am benderfyniad i gael eu gwneud gan Weinidogion Cymru. Bydd hyn yn caniatáu i swyddogion gweinyddol sy'n cefnogi'r person penodedig gyflawni rolau o'r fath, yn enwedig os, yn y dyfodol, y caiff yr adolygiad ei wneud gan rywun heblaw am yr Arolygiaeth Gynllunio. Mae'r Bil yn ei gwneud yn |

| | |
|---|---|
| Weinidogion Cymru | ofynnol i'r person penodedig wneud y penderfyniad ar yr adolygiad, fel nad yw annibyniaeth y broses o wneud penderfyniad yn cael ei beryglu. |
| **Digolledіad am golled neu ddifrod a achosir gan warchodaeth interim** | |
| **Rhan 2, adran 3(1), sy’n mewnosod adran 1AD(2) newydd i Ddeddf 1979** | |
| **Manylion** | **Bwriad y Polisi** |
| 1AD(2) Caiff Gweinidogion Cymru ragnodi sut y dylid gwneud hawliad am ddigollediad am unrhyw golled neu ddifrod y gellir ei briodoli’n uniongyrchol i effaith gwarchodaeth interim, a’r cyfnod ar gyfer gwneud hawliad o’r fath | Mewn amgylchiadau penodol, rhaid i Weinidogion dalu digollediad am unrhyw golled neu ddifrod y gellir ei briodoli’n uniongyrchol i effaith gwarchodaeth interim. Mae’r ddarpariaeth yn galluogi Gweinidogion Cymru i ragnodi ym mha fodd y mae’n rhaid gwneud hawliad am ddigollediad, a’r cyfnod y mae’n rhaid ei wneud ynddo. Cynigir y bydd yn rhaid gwneud unrhyw hawliad o’r fath yn ysgrifenedig o fewn chwe mis gan gynnwys tystiolaeth o’r golled / difrod. |

| | |
|---|---|
| **Adeiladau rhestredig** | |
| **Estyn y categorïau o bobl y mae’n rhaid ymgynghori â hwy cyn dynodi.** | |
| **Rhan 3, adran 24(1), sy'n mewnosod adran 2A(5) newydd i Ddeddf 1990** | |
| **Manylion** | **Bwriad y Polisi** |
| 2A(5) Caiff Gweinidogion Cymru, drwy reoliadau, ychwanegu at y rhestr o bersonau priodol yn 2A(3) a gwneud diwygiadau canlyniadol i'r Ddeddf os yw'n briodol. | Mae'r pŵer i wneud rheoliadau yn caniatáu i Weinidogion Cymru bennu categorïau eraill o bobl a allai fod â diddordeb mewn adeilad ac y dylid ymgynghori'n ffurfiol â nhw cyn rhestru. Os pennir categori ychwanegol o berson, yna efallai y bydd gofyn gwneud diwygiadau canlyniadol i adrannau eraill o'r Bil, megis y rhannau hynny sy'n delio â hysbysu ac adolygu. |
| **Adolygu penderfyniadau penodol i restru adeilad** | |
| **Rhan 3, adran 24(1), sy'n mewnosod adran 2D(6)(a)–(d) i Ddeddf 1990** | |
| **Manylion** | **Bwriad y polisi** |
| 2D(6)(a) Y sail y caiff cais am adolygiad ei wneud arni | Bwriad y polisi yw bod yn rhaid i'r adolygiad ymwneud â diddordeb pensaernïol neu hanesyddol adeilad a:<br>• bod y penderfyniad wedi'i wneud yn anghywir - er enghraifft, rhestrwyd yr adeilad anghywir o ganlyniad i gamgymeriad ffeithiol; |

| | |
|---|---|
| | • bod rhywbeth afreolaidd am y broses a bod hyn wedi effeithio ar y canlyniad — er enghraifft, ni ystyriwyd ystyriaethau perthnasol, neu ystyriwyd ystyriaethau amherthnasol; neu<br>• bod tystiolaeth sylweddol newydd nas ystyriwyd yn flaenorol mewn perthynas â diddordeb pensaernïol neu hanesyddol arbennig yr adeilad - er enghraifft, gwybodaeth newydd yn ymwneud â dyddiad yr adeilad sydd yn gwneud gwahaniaeth sylweddol i'w ddiddordeb pensaernïol neu hanesyddol.<br><br>Ni ragwelir y dylid ystyried ffactorau eraill, megis y gost o gynnal a chadw adeiladau rhestredig neu ystyriaethau cynllunio. |
| 2D(6)(b) Y ffurf a'r modd y mae'n rhaid gwneud cais | Bydd Gweinidogion Cymru yn darparu ffurflen i berchennog/meddiannydd ei chwblhau i wneud cais am adolygiad o benderfyniad i ddynodi Bydd y ceisydd yn gallu gwneud cais am adolygiad ar-lein neu'n ysgrifenedig. |
| 2D(6)(c) Yr wybodaeth sydd i gael ei darparu i Weinidogion Cymru, neu y gall Weinidogion Cymru ei gwneud yn ofynnol mewn cysylltiad â chais. | Bydd y ffurflen yn gofyn am wybodaeth megis ar ba sail y gwneir yr adolygiad, yr hysbysiad am y penderfyniad a pham fod y ceisydd yn anghytuno â phenderfyniad Gweinidogion Cymru. |
| 2D(6)(d) Y cyfnod y mae'n rhaid gwneud cais ynddo. | Y bwriad yw y bydd yn rhaid gwneud cais am adolygiad o fewn 12 wythnos i benderfyniad Gweinidogion Cymru i restru adeilad. Bydd gan y person penodedig y disgresiwn i dderbyn cais hwyr, ond dim ond am resymau eithriadol iawn. |
| **D.S.** Rhagwelir y caiff yr un gweithdrefnau adolygu eu sefydlu ar gyfer penderfyniadau ar henebion cofrestredig ac adeiladau rhestredig. Mae Deddf 1990 a Deddf Cynllunio Gwlad a Thref 1990 eisoes yn caniatáu i Weinidogion Cymru wneud darpariaethau ar gynnal ymchwiliadau lleol a chyhoeddus a'r costau e gellid bod gofyn eu talu. Felly nid oes angen darpariaethau ar wahân o ran y materion hynny yng nghyd-destun adolygiadau o benderfyniadau rhestru Gweinidogion Cymru. | |
| **Atodlen 2, sy'n mewnosod Atodlen 1B, paragraff 1(1) a pharagraff 5 i Ddeddf 1990** | |
| **Manylion** | **Bwriad y Polisi** |
| 1(1) Y categorïau o adolygiadau y mae penderfyniad i gael eu gwneud arnynt gan berson penodedig yn hytrach na Gweinidogion Cymru | Bwriad Gweinidogion Cymru yw penodi'r Arolygiaeth Gynllunio i gynnal adolygiadau o'u penderfyniadau i restru adeiladau.<br>Bydd pŵer i wneud rheoliadau i nodi'r categorïau o adolygiadau y mae'n rhaid i benderfyniadau gael eu gwneud arnynt gan berson penodedig yn caniatáu hyblygrwydd yn y dyfodol i bennu'r person mwyaf priodol i gynnal yr adolygiadau. |

| | |
|---|---|
| 5 Cyfarwyddydau bod unrhyw beth sydd i gael ei wneud gan berson penodedig mewn cysylltiad ag adolygiad (heblaw am wneud penderfyniad) i gael ei wneud gan Weinidogion Cymru | Bydd hyn yn galluogi Gweinidogion Cymru i gyfarwyddo bod materion megis hysbysu am adolygiad, rhannu sylwadau/tystiolaeth a hysbysu am benderfyniad i gael eu gwneud gan Weinidogion Cymru. Bydd hyn yn caniatáu i swyddogion gweinyddol sy'n cefnogi'r person penodedig gyflawni rolau o'r fath, yn enwedig os, yn y dyfodol, y caiff yr adolygiad ei wneud gan rywun heblaw am yr Arolygiaeth Gynllunio. Mae'r Bil yn ei gwneud yn ofynnol i'r person penodedig wneud y penderfyniad ar yr adolygiad, fel nad yw annibyniaeth y broses o wneud penderfyniad yn cael ei pheryglu. |
| **Digolledíad am golled neu ddifrod a achosir gan warchodaeth interim** | |
| **Rhan 3, adran 24(3), sy’n mewnosod adran 28B(2) newydd i Ddeddf 1990** | |
| **Manylion** | **Bwriad y Polisi** |
| 28B(2) Caiff Gweinidogion Cymru ragnodi sut y dylid gwneud hawliad am ddigolledíad am unrhyw golled neu ddifrod y gellir ei briodoli’n uniongyrchol i effaith gwarchodaeth interim, a’r cyfnod ar gyfer gwneud hawliad o’r fath | Mewn amgylchiadau penodol, rhaid i Weinidogion dalu digolledíad am unrhyw golled neu ddifrod y gellir ei briodoli’n uniongyrchol i effaith gwarchodaeth interim. Mae’r ddarpariaeth yn galluogi Gweinidogion Cymru i ragnodi ym mha fodd y mae’n rhaid gwneud hawliad am ddigolledíad, a’r cyfnod y mae’n rhaid ei wneud ynddo. Cynigir y bydd yn rhaid gwneud unrhyw hawliad o’r fath yn ysgrifenedig o fewn chwe mis gan gynnwys tystiolaeth o’r golled / difrod. |

## 3. Cydsyniad heneb gofrestredig — symleiddio'r broses

**Pŵer**

3.1 Mae Rhan 2, adran 5(1)–(2) o Fil yr Amgylchedd Hanesyddol (Cymru) yn cyflwyno adran 5B a pharagraff 1(3) newydd i ran 1 o Atodlen 1 yn Neddf 1979.

**Disgrifiad**

3.2 Mae Rhan 2, adran 5(1)–(2) o Fil yr Amgylchedd Hanesyddol (Cymru) yn caniatáu i Weinidogion Cymru wneud rheoliadau i nodi ym mha ffordd y cânt roi cydsyniad heneb gofrestredig a sut y gall berchennog / meddiannydd wneud cais am gydsyniad heblaw am drwy ddefnyddio'r ffurflen ragnodedig.

**Bwriad y Polisi**

3.3 Creu proses gydsynio sy'n hyblyg ac yn gymesur er mwyn diwallu anghenion y cyhoedd a Gweinidogion Cymru.

3.4 Yn amodol ar ymgynghoriad â rhanddeiliaid, caiff bwriadau'r polisi cyfredol o ran y manylion sydd i gael eu rhagnodi mewn is-ddeddfwriaeth eu crynhoi isod.

| Cydsyniad heneb gofrestredig — symleiddio'r broses | |
|---|---|
| **Rhan 2, adran 5(1), sy'n mewnosod adran 5B newydd i Ddeddf 1979** | |
| **Manylion** | **Bwriad y Polisi** |
| Ffurf a chynnwys cydsyniad heneb gofrestredig | Mae Deddf 1979 yn ei gwneud yn ofynnol i gydsyniad heneb gofrestredig gael ei roi'n ysgrifenedig os yw gwaith i gael ei awdurdodi. Mae'r adran newydd yn caniatáu i Weinidogion Cymru roi cydsyniad heneb gofrestredig mewn unrhyw ffordd arall y maent yn ei rhagnodi. Bwriad y polisi hwn yw caniatáu i gydsyniad gael ei roi'n electronig a sicrhau bod y system yn addas at y dyfodol ac y bydd yn symud gyda'r oes. |
| **Rhan 2, adran 5(2), sy'n mewnosod paragraff 1(3) newydd yn Rhan 1 o Atodlen 1 o Ddeddf 1979** | |
| **Manylion** | **Bwriad y Polisi** |
| Gellir gwneud cais ar ffurf arall heblaw am y ffurf y darperir ar ei chyfer ym mharagraff 1(1) o Atodlen 1 | Mae Atodlen 1, Rhan 1 o Ddeddf 1979 yn darparu ar gyfer rheoliadau ar y ffurf a'r modd y ceir gwneud ceisiadau ar gyfer cydsyniad heneb gofrestredig. Byddai'r paragraff newydd yn rhoi hyblygrwydd i Weinidogion Cymru ganiatáu gwneud ceisiadau penodol am gydsyniad heneb gofrestredig ar ffurf heblaw am y ffurf a ddarperir ar ei chyfer ym mharagraff 1(1). Byddai hyn yn caniatáu cyflwyno proses cydsyniad heneb gofrestredig fwy syml a fyddai'n cael gwared â chais ysgrifenedig a'r cam cydsyniad interim, sy'n rhoi'r cyfle i'r ceisydd wneud sylwadau pellach neu ofyn am wrandawiad. Pan fo'r ceisydd a Gweinidogion Cymru yn cytuno i ddefnyddio'r broses hon, gallai llythyr cydsyniad heneb gofrestredig gael ei roi i awdurdodi, yn syml, gwaith ar heneb fel y disgrifir. Dim ond ar gyfer gwaith ansylweddol y byddai'r weithdrefn hon yn cael ei defnyddio. |

## 4. Digolledu am wrthod cydsyniad heneb gofrestredig.

### Pwerau

4.1 Mae Rhan 2, adran 10(2) o Fil yr Amgylchedd Hanesyddol (Cymru) yn cyflwyno adran 7(4A) newydd yn Neddf 1979.

### Disgrifiad

4.2 Mae Adran 7 o Ddeddf 1979 yn darparu ar gyfer talu digollediad mewn amgylchiadau cyfyngedig iawn pan wrthodir cydsyniad heneb gofrestredig, neu pan gaiff ei roi, ond yn ddarostyngedig i amodau beichus. Gall berchennog neu unrhyw un sydd â buddiant mewn heneb sy'n mynd i gostau ac yn gwneud colled neu'n dioddef difrod gan fod cydsyniad heneb gofrestredig wedi cael ei wrthod (neu, yn achos c) isod, gan fod y cydsyniad wedi'i roi, ond yn ddarostyngedig i amodau sy'n ei gwneud yn amhosibl defnyddio'r heneb) fod â hawl i ddigollediad os:

a) yw'r gwaith arfaethedig yn rhesymol angenrheidiol i weithredu caniatâd cynllunio a roddwyd cyn i'r heneb gael ei chofrestru;
b) os nad yw'r gwaith arfaethedig yn ddatblygiad neu os yw'n ddatblygiad a ganiateir o dan ddarpariaethau Gorchymyn Datblygiad Cyffredinol; neu
c) yw'r gwaith arfaethedig yn angenrheidiol i'r heneb barhau i gael ei defnyddio at y diben cyfreithlon yr oedd yn cael ei defnyddio ar ei gyfer o’r blaen yn union cyn dyddiad y cais am gydsyniad.

4.3 Mae Adran 7(4) yn nodi nad yw digollediad yn daladwy (o dan b) uchod) pan fo gwrthod y cydsyniad yn ymwneud â gwaith a fyddai'n dinistrio, yn gyfan gwbl neu'n rhannol, heneb, ac eithrio at ddibenion amaethyddiaeth neu goedwigaeth.

### Bwriad y Polisi

4.4 Mae'r pŵer i wneud rheoliadau yn caniatáu i Weinidogion Cymru edrych ymhellach ar y darpariaethau digolledu yn y Ddeddf a phenderfynu a yw'r polisi cyfredol o driniaeth wahanol at ddibenion amaeth a choedwigaeth o gymharu â dibenion eraill yn deilwng, yn enwedig o ystyried deddfwriaeth gyfredol ym maes diogelu'r amgylchedd a chynlluniau amaeth-amgylcheddol.

## 5. Cytundebau partneriaeth dreftadaeth

### Pwerau

5.1 Mae Rhan 2, adran 11(1) o Fil yr Amgylchedd Hanesyddol (Cymru) yn cyflwyno adran 9ZB(3) newydd yn Neddf 1979.

5.2 Mae Rhan 3, adran 28(1) o Fil yr Amgylchedd Hanesyddol (Cymru) yn cyflwyno adran 26M(3) yn Neddf 1990.

### Disgrifiad

5.3 Caiff perchnogion henebion cofrestredig a/neu adeiladau rhestredig ymrwymo i gytundeb partneriaeth dreftadaeth gyda Gweinidogion Cymru neu awdurdodau cynllunio lleol. Bydd cytundeb o'r fath yn rhoi cydsyniad i raglen o waith penodol yn ystod cyfnod penodol, fel nad oes angen cydsyniadau ar wahân ar gyfer pob set o waith.

5.4 Mae rhan 2, adran 11(1) o Fil yr Amgylchedd Hanesyddol (Cymru) yn mewnosod adrannau 9ZA a 9ZB newydd yn Neddf 1979 sy'n darparu ar gyfer cytundebau partneriaeth dreftadaeth ar gyfer henebion cofrestredig ac yn darparu i Weinidogion Cymru allu rhoi cydsyniad heneb gofrestredig i waith fel rhan o gytundeb. Mae adran 9ZB(3) yn darparu pwerau i Weinidogion Cymru wneud darpariaeth drwy reoliadau ar gyfer:

- unrhyw ymgynghoriad y mae'n rhaid ei gynnal cyn i gytundeb partneriaeth dreftadaeth gael ei wneud neu ei amrywio;
- y cyhoeddusrwydd y mae'n rhaid ei roi i gytundeb partneriaeth dreftadaeth cyn iddo gael ei wneud neu ei amrywio;
- y telerau y mae'n rhaid eu cynnwys mewn cytundeb partneriaeth dreftadaeth;
- galluogi Gweinidogion Cymru i derfynu, drwy orchymyn, gytundeb partneriaeth dreftadaeth neu unrhyw rai o'i ddarpariaethau;
- y ddarpariaeth y gellir ei chynnwys mewn gorchymyn o'r fath; a
- datgymhwyso, neu gymhwyso neu atgynhyrchu gyda diwygiadau, neu heb ddiwygiadau, unrhyw ddarpariaeth yn y Bil at ddibenion cytundebau partneriaeth dreftadaeth.

5.5 Mae Rhan 3, adran 28(1) o Fil yr Amgylchedd Hanesyddol (Cymru) yn mewnosod adrannau 26L and 26M newydd yn Neddf 1990 sy'n rhoi mesurau cyfwerth ar waith ar gyfer adeiladau rhestredig, gan gynnwys pŵer i awdurdodau cynllunio lleol neu

Weinidogion Cymru roi cydsyniad adeilad rhestredig ar gyfer gwaith sy'n rhan o'r cytundeb. Mae Adran 26M(3) yn darparu pwerau i Weinidogion wneud darpariaeth, drwy reoliadau, ar gyfer:

- unrhyw ymgynghoriad y mae'n rhaid ei gynnal cyn i gytundeb partneriaeth dreftadaeth gael ei wneud neu ei amrywio;
- y cyhoeddusrwydd y mae'n rhaid ei roi i gytundeb partneriaeth dreftadaeth cyn iddo gael ei wneud neu ei amrywio;
- y telerau y mae'n rhaid eu cynnwys mewn cytundeb partneriaeth dreftadaeth;
- galluogi Gweinidogion Cymru i derfynu, drwy orchymyn, gytundeb partneriaeth dreftadaeth neu unrhyw rai o'i ddarpariaethau;
- galluogi unrhyw awdurdod cynllunio lleol sy'n rhan o gytundeb i'w derfynu;
- y ddarpariaeth y gellir ei chynnwys mewn gorchymyn terfynu o'r fath;
- datgymhwyso, neu gymhwyso neu atgynhyrchu gyda diwygiadau, neu heb ddiwygiadau, ddarpariaethau penodol yn Neddf 1990 mewn perthynas â'r broses cydsyniad adeilad rhestredig at ddibenion cytundebau partneriaeth dreftadaeth; ac
- unrhyw ddiwygiadau canlyniadol i adrannau penodedig o Ddeddf 1990 y gellir bod eu hangen.

**Bwriad y Polisi**

5.6 Gwella'r ffordd y caiff asedau Cymru sydd wedi eu dynodi'n statudol yn asedau hanesyddol eu rheoli'n gynaliadwy drwy greu pwerau i awdurdodau cydsynio, perchnogion, a phartïon eraill sydd â buddiant ymrwymo i gynlluniau rheoli gwirfoddol hir dymor a all roi'r holl gydsyniadau statudol angenrheidiol ar gyfer rhaglen gytunedig o waith. Bydd pennu manylion trefniadau gweinyddol mewn rheoliadau yn caniatáu hyblygrwydd ac yn caniatáu i'r gweithdrefnau gael eu diwygio yn weddol gyflym ar sail profiad.

5.7 Yn amodol ar ymgynghori â rhanddeiliaid, caiff y bwriad cyfredol o ran y polisi ar gyfer y manylion sydd i gael eu cofnodi mewn is-ddeddfwriaeth eu crynhoi isod.

| Cytundeb partneriaeth dreftadaeth ar gyfer henebion cofrestredig | |
|---|---|
| **Rhan 2, adran 11(1), sy'n mewnosod adran 9ZB(3) newydd i Ddeddf 1979** | |
| **Manylion** | **Bwriad y Polisi** |
| 9ZB(3)(a) Unrhyw ymgynghoriad y mae'n rhaid ei gynnal cyn i gytundeb partneriaeth dreftadaeth gael ei wneud neu ei amrywio | Gellir disgwyl i gytundebau partneriaeth dreftadaeth roi sawl cydsyniad heneb gofrestredig o fewn un cytundeb, a hynny ar gyfer cyfnod gweddol hir o amser. Y bwriad, felly, yw y bydd y rheoliadau yn ei gwneud yn ofynnol i Weinidogion Cymru ymgynghori â'r awdurdod cynllunio lleol perthnasol, yr ymddiriedolaeth archaeolegol briodol, a chyrff eraill ag arbenigedd perthnasol cyn cytuno ar gytundeb partneriaeth dreftadaeth. Bydd y broses ymgynghori a chyhoeddusrwydd yn para am isafswm o 28 diwrnod. |
| 9ZB(3)(b) Y cyhoeddusrwydd y mae'n rhaid ei roi i gytundeb partneriaeth dreftadaeth cyn neu ar ôl iddo gael ei wneud neu ei amrywio; | Y bwriad yw ei gwneud yn ofynnol i Weinidogion Cymru gyhoeddi gwybodaeth ar-lein ar bartneriaeth dreftadaeth arfaethedig er mwyn gwneud unrhyw berchennog neu feddiannydd nad yw'n rhan ohono yn ymwybodol ohono. |
| 9ZB(3)(c) Y telerau y mae'n rhaid eu cynnwys mewn cytundeb partneriaeth dreftadaeth | Nodir nodweddion gorfodol cytundeb partneriaeth dreftadaeth yn adran 9ZB(1), gan gynnwys bod yn rhaid iddo fod yn ysgrifenedig a darparu ar gyfer adolygu, terfynu ac amrywio. Bydd y rheoliadau yn ategu hyn drwy bennu unrhyw delerau eraill y mae'n rhaid eu cynnwys mewn cytundeb. Gall telerau o'r fath gynnwys datganiad am bwysigrwydd yr asedau hanesyddol, asesiad o effeithiau'r gwaith ar y pwysigrwydd hwnnw, y cyfiawnhad am y gwaith, a chyfnod y cytundeb. |
| 9ZB(3)(d) Galluogi Gweinidogion Cymru i derfynu, drwy orchymyn, gytundeb partneriaeth dreftadaeth neu unrhyw ddarpariaeth mewn cytundeb o'r fath. | Y bwriad yw y bydd gan Weinidogion Cymru'r pŵer i ddirwyn cytundeb partneriaeth dreftadaeth i ben pan fetha popeth arall a phan ystyrir hyn yn angenrheidiol i ddiogelu pwysigrwydd cenedlaethol heneb gofrestredig a phan ei bod yn amhosib negodi diwygiad i'r cytundeb. Gall sefyllfa o'r fath godi os bydd newid o ran amgylchiadau yn gwneud diwygiadau sylweddol yn angenrheidiol i'r gwaith sydd wedi ei gymeradwyo mewn cytundeb, ond nad yw'r partïon yn gallu cytuno ar yr amrywiadau sydd eu hangen. |
| 9ZB(3)(e) Y ddarpariaeth y gellir ei chynnwys mewn gorchymyn a wneir o dan reoliadau o dan baragraff (d), gan gynnwys darpariaeth i alluogi gorchmynion o'r fath i gynnwys darpariaeth atodol, ganlyniadol, ddarfodol, drosiannol neu arbed. | Os yw cytundeb partneriaeth dreftadaeth i gael ei ddirwyn i ben drwy orchymyn Gweinidogion Cymru, efallai y bydd angen gwneud rhai trefniadau trosiannol yn y gorchymyn. Er enghraifft, efallai y bydd angen trefniadau o'r fath i ganiatáu i unrhyw gydsyniad heneb gofrestredig a roddir o dan y cytundeb partneriaeth dreftadaeth barhau mewn grym os yw gwaith eisoes wedi dechrau. Bydd y pŵer hwn i wneud rheoliadau yn caniatáu i Weinidogion Cymru bennu beth y gellir ei gynnwys yn y gorchymyn terfynu. |

| | |
|---|---|
| 9ZB(3)(f) Datgymhwyso, neu gymhwyso, neu atgynhyrchu gyda diwygiadau, neu heb ddiwygiadau, unrhyw ddarpariaeth yn y Ddeddf hon at ddibenion cytundebau partneriaeth dreftadaeth. | Bydd y rheoliadau'n nodi'r adrannau yn Neddf 1979 a fydd yn gymwys neu'n anghymwys i gytundebau partneriaeth dreftadaeth. Felly, caiff y rheoliadau wneud y darpariaethau yn y Ddeddf sy'n delio â rheoli gwaith sy'n effeithio ar henebion cofrestredig a gwaith anawdurdodedig yn gymwys, ond caiff wneud y darpariaethau yn y Ddeddf sy'n nodi cyfnod cydsyniad heneb gofrestredig yn anghymwys. |

| **Cytundebau partneriaeth dreftadaeth ar gyfer adeiladau rhestredig** | |
|---|---|
| **Rhan 3, adran 28(1), sy'n mewnosod adran 26M(3) i Ddeddf 1990** | |
| **Manylion** | **Bwriad y Polisi** |
| 26M(3)(a) Unrhyw ymgynghoriad y mae'n rhaid ei gynnal cyn i gytundeb partneriaeth dreftadaeth gael ei wneud neu ei amrywio | Gellir disgwyl i gytundebau partneriaeth dreftadaeth roi sawl cydsyniad adeilad rhestredig o fewn un cytundeb, a hynny ar gyfer cyfnod gweddol hir o amser. Y bwriad, felly, yw y bydd y rheoliadau yn ei gwneud yn ofynnol i awdurdodau cynllunio lleol ymgynghori â chyrff amwynder penodedig, megis Y Gymdeithas Sioraidd, y Gymdeithas Fictoraidd neu Gymdeithas yr Ugeinfed Ganrif, yn ogystal â Gweinidogion Cymru, os nad ydynt yn rhan o'r cytundeb. Mae'r trefniadau hyn yn debyg i'r rheiny sydd eisoes ar waith ar gyfer ceisiadau am gydsyniad adeilad rhestredig. Bydd y broses ymgynghori a chyhoeddusrwydd yn para am isafswm o 28 diwrnod. |
| 26M(3)(b) Y cyhoeddusrwydd y mae'n rhaid ei roi i gytundeb partneriaeth dreftadaeth cyn neu ar ôl iddo gael ei wneud neu ei amrywio; | Y bwriad yw ei gwneud yn ofynnol i'r awdurdod cynllunio lleol gyhoeddi ar-lein yr wybodaeth ynghylch cytundeb partneriaeth dreftadaeth arfaethedig a gwneud unrhyw berchennog neu feddiannydd nad yw'n rhan o'r cytundeb yn ymwybodol ohono. |
| 26M(3)(c) Y telerau y mae'n rhaid eu cynnwys mewn cytundeb partneriaeth dreftadaeth | Caiff nodweddion gorfodol cytundeb partneriaeth dreftadaeth eu nodi yn adran 26M(1), gan gynnwys bod yn rhaid iddo fod yn ysgrifenedig a darparu ar gyfer adolygu, terfynu ac amrywio'r cytundeb. Bydd y rheoliadau'n ategu'r rhain drwy bennu unrhyw delerau eraill y mae'n rhaid eu cynnwys yn y cytundeb. Gall telerau o'r fath gynnwys datganiad am bwysigrwydd yr asedau hanesyddol, asesiad o effeithiau'r gwaith ar y pwysigrwydd hwnnw, y cyfiawnhad am y gwaith, a chyfnod y cytundeb. |
| 26M(3)(d) ac (e) Galluogi Gweinidogion Cymru neu awdurdod cynllunio lleol i derfynu, drwy | Y bwriad yw y bydd gan Weinidogion Cymru ac awdurdod cynllunio lleol sy'n rhan o gytundeb y pŵer i'w ddirwyn i ben pan fetha popeth arall a phan ystyrir hyn yn angenrheidiol i ddiogelu diddordeb arbennig adeilad rhestredig a phan ei bod yn amhosib |

| | |
|---|---|
| orchymyn, gytundeb partneriaeth dreftadaeth neu unrhyw ddarpariaeth mewn cytundeb o'r fath | negodi diwygiad i'r cytundeb. Gall sefyllfa o'r fath godi os bydd newid o ran amgylchiadau yn gwneud diwygiadau sylweddol yn angenrheidiol i'r gwaith sydd wedi ei gymeradwyo mewn cytundeb, ond nad yw'r partïon yn gallu cytuno ar yr amrywiadau sydd eu hangen. |
| 26M(3)(f) Y ddarpariaeth y caiff ei chynnwys mewn gorchymyn a wneir o dan reoliadau o dan baragraff (d), gan gynnwys darpariaeth i alluogi gorchmynion o'r fath i gynnwys darpariaeth atodol, ganlyniadol, ddarfodol, drosiannol neu arbed. | Os yw cytundeb partneriaeth dreftadaeth i gael ei derfynu drwy orchymyn gan Weinidogion Cymru, awdurdod cynllunio lleol neu berson penodedig arall, efallai y bydd angen gwneud rhai trefniadau trosiannol yn y gorchymyn. Er enghraifft, efallai y bydd angen trefniadau o'r fath i ganiatáu i gydsyniad adeilad rhestredig a roddwyd o dan y cytundeb partneriaeth dreftadaeth barhau mewn grym os yw gwaith eisoes wedi dechrau. Bydd y pŵer hwn i wneud rheoliadau yn caniatáu i Weinidogion Cymru bennu beth y gellir ei gynnwys yn y gorchymyn terfynu. |
| 26M(3)(g) Datgymhwyso, neu gymhwyso, neu atgynhyrchu gyda diwygiadau, neu heb ddiwygiadau, unrhyw ddarpariaeth yn adrannau 10 i 13, 15 i 26, 28 a 38 i 46 at ddibenion cytundebau partneriaeth dreftadaeth. | Bydd y rheoliadau yn nodi adrannau o Ddeddf 1990 a fydd yn gymwys neu'n anghymwys i gytundebau partneriaeth dreftadaeth; mae'r adrannau hyn yn ymwneud â phrosesau ymgeisio, hysbysu, cydsynio ac apelio, a gorfodi o ran adeilad rhestredig. Er enghraifft, gallai'r rheoliadau gymhwyso darpariaethau yn y Ddeddf i alluogi rhoi amodau o fewn penderfyniadau cydsyniad adeilad rhestredig neu ddarpariaethau sy'n caniatáu i geisiadau am gydsyniad adeilad rhestredig gael eu hatgyfeirio at Weinidogion Cymru. Gan fod cytundebau partneriaeth dreftadaeth yn wirfoddol, ni chaiff hawliau ymgeiswyr eu tanseilio. |
| 26M(3)(h) Darparu ar gyfer unrhyw rai o'r canlynol, fel y maent yn gymwys at ddibenion darpariaethau y soniwyd amdanynt ym mharagraff (f), i fod yn gymwys gydag unrhyw ddiwygiadau sy'n ganlyniadol i ddarpariaeth a wnaed o dan y paragraff hwnnw:<br>i. adrannau 30 i 37;<br>ii. adrannau 62 a 63;<br>iii. Rhannau 3 a 4;<br>iv. Atodlen 3. | Byddai'r ddarpariaeth yn caniatáu i'r rheoliadau ddiwygio darpariaethau Deddf 1990 sydd â'r potensial i gael eu heffeithio arnynt o ganlyniad i amnewid y broses cydsyniad adeilad rhestredig am gytundeb partneriaeth dreftadaeth. Gallai hyn gynnwys darpariaethau'n ymwneud â digolledu, hysbysiadau prynu adeilad rhestredig, a'r categorïau o apeliadau sydd i gael eu penderfynu arnynt gan berson a benodir gan Weinidogion Cymru. |

## 6. Hysbysiadau stop dros dro

**Pŵer**

6.1 Mae Rhan 2, adran 13(1) o Fil yr Amgylchedd Hanesyddol (Cymru) yn cyflwyno adran 9ZL(1) yn Neddf 1979.

6.2 Mae Rhan 3, adran 29(1) o Fil yr Amgylchedd Hanesyddol (Cymru) yn cyflwyno adran 44B(11) a 44D(1) newydd yn Neddf 1990.

**Disgrifiad**

6.3 Mae rhan 2, adran 13(1) yn mewnosod adrannau 9ZI–9ZL newydd i Ddeddf 1979 i lywodraethu pwerau newydd i Weinidogion Cymru gyflwyno hysbysiadau stop dros dro i'w gwneud yn ofynnol i waith penodedig ar henebion cofrestredig gael ei stopio ar unwaith am gyfnod o 28 diwrnod. Mae'r adran 9ZL newydd yn nodi'r hawl i ddigollediad mewn cysylltiad â unrhyw golled neu ddifrod y gellir ei briodoli i gyflwyno'r hysbysiad stop dros dro ac mae 9ZL(1) yn caniatáu i Weinidogion Cymru ragnodi ym mha fodd y mae'n rhaid gwneud hawliad am ddigollediad, a'r cyfnod y mae'n rhaid ei wneud ynddo.

6.4 Mae rhan 3, adran 29(1) yn mewnosod mesurau tebyg (sef adrannau 44B–44D) er mwyn i awdurdodau cynllunio lleol gyflwyno hysbysiadau stop dros dro yn ei gwneud yn ofynnol i waith penodol ar adeiladau rhestredig ddod i ben ar unwaith. Mae'r adran 44B(11) newydd yn caniatáu i Weinidogion Cymru wneud rheoliadau'n rhagnodi gwaith na fydd hysbysiadau stop dros dro yn gymwys iddynt. Mae adran 44D(1) yn caniatáu i Weinidogion Cymru ragnodi ym mha fodd y mae'n rhaid gwneud hawliad am ddigollediad, a'r cyfnod y mae'n rhaid ei wneud ynddo, mewn cysylltiad ag unrhyw golled neu ddifrod y gellir ei briodoli i gyflwyno'r hysbysiad stop dros dro.

**Bwriad y Polisi**

6.5 Bydd hysbysiadau stop dros dro yn rhoi mesurau effeithiol i Weinidogion Cymru ac awdurdodau cynllunio lleol i roi stop ar unwaith i waith anawdurdodedig sy'n niweidio asedau hanesyddol dynodedig.

| Hysbysiadau stop dros dro — henebion cofrestredig | |
|---|---|
| **Rhan 2, adran 13(1), sy'n mewnosod adran 9ZL(1) newydd i Ddeddf 1979** | |
| **Manylion** | **Bwriad y Polisi** |
| 9ZL(1) Caiff Gweinidogion Cymru ragnodi sut y dylid gwneud hawliad am ddigollediad am unrhyw golled neu ddifrod y gellir ei briodoli'n uniongyrchol i effaith gwarchodaeth interim, a'r cyfnod ar gyfer gwneud hawliad o'r fath | Mewn amgylchiadau penodol, rhaid i Weinidogion dalu digollediad am unrhyw golled neu ddifrod y gellir ei briodoli'n uniongyrchol i effaith gwarchodaeth interim. Mae'r ddarpariaeth yn galluogi Gweinidogion Cymru i ragnodi ym mha fodd y mae'n rhaid gwneud hawliad am ddigollediad, a'r cyfnod y mae'n rhaid ei wneud ynddo. Cynigir y bydd yn rhaid gwneud unrhyw hawliad o'r fath yn ysgrifenedig o fewn chwe mis gan gynnwys tystiolaeth o'r golled / difrod. |

| Hysbysiadau stop dros dro — adeiladau rhestredig | |
|---|---|
| **Rhan 3, adran 29(1), sy'n mewnosod adrannau 44B(11) a 44D(1) newydd i Ddeddf 1990** | |
| **Manylion** | **Bwriad y Polisi** |
| 44B(11) Caiff Gweinidogion Cymru ragnodi gwaith nad yw hysbysiadau stop dros dro yn gymwys iddo. | Bydd y pŵer newydd yn galluogi Gweinidogion Cymru i hepgor gwaith penodol o effeithiau hysbysiadau stop dros dro ar gyfer adeiladau rhestredig. Y disgwyl yw mai anaml y caiff hysbysiadau stop dros dro eu defnyddio yn erbyn gwaith anawdurdodedig ac ni ragwelir y bydd angen eithrio categorïau o waith. Fodd bynnag, os bydd profiad o ddefnyddio'r hysbysiadau yn dangos bod angen eithriadau neu esemptiadau o'r fath, bydd y pŵer i wneud rheoliadau yn rhoi ffordd o sicrhau bod hysbysiadau stop dros dro yn gweithio mewn ffordd briodol. |
| 44D(1) Caiff Gweinidogion Cymru ragnodi sut y dylid gwneud hawliad am ddigollediad am unrhyw golled neu ddifrod y gellir ei briodoli'n uniongyrchol i effaith gwarchodaeth interim, a'r cyfnod ar gyfer gwneud hawliad o'r fath | Mewn amgylchiadau penodol, rhaid i Weinidogion dalu digollediad am unrhyw golled neu ddifrod y gellir ei briodoli'n uniongyrchol i effaith gwarchodaeth interim. Mae'r ddarpariaeth yn galluogi Gweinidogion Cymru i ragnodi ym mha fodd y mae'n rhaid gwneud hawliad am ddigollediad, a'r cyfnod y mae'n rhaid ei wneud ynddo. Cynigir y bydd yn rhaid gwneud unrhyw hawliad o'r fath yn ysgrifenedig o fewn chwe mis gan gynnwys tystiolaeth o'r golled / difrod. |

## 7. Cofnodion amgylchedd hanesyddol

### Pwerau

7.1 Mae rhan 4, adran 33(9) o Fil yr Amgylchedd Hanesyddol (Cymru) yn rhoi pwerau i wneud rheoliadau.

7.2 Mae rhan 4, adran 36 o Fil yr Amgylchedd Hanesyddol (Cymru) yn rhoi pwerau i gyhoeddi canllawiau.

### Disgrifiad

7.3 Mae rhan 4, adrannau 33 i 36 o Fil yr Amgylchedd Hanesyddol (Cymru) yn nodi'r gofyniad am sefydlu cofnodion amgylchedd hanesyddol yng Nghymru. Mae adran 33 yn rhoi dyletswydd ar bob awdurdod cynllunio lleol i greu, cadw a diweddaru cofnodion amgylchedd hanesyddol ar gyfer ei ardal. Mae adran 33(2) yn nodi'r wybodaeth y mae'n rhaid ei chynnwys mewn cofnod amgylchedd hanesyddol. Mae hyn yn cynnwys:

- manylion yr asedau hanesyddol hynny sy'n warchodedig neu'n gofrestredig o dan Ddeddf 1979 neu Ddeddf 1990;
- manylion pob safle gwrthdaro sydd o ddiddordeb hanesyddol ym marn yr awdurdod;
- manylion pob tirwedd hanesyddol yn ardal yr awdurdod;
- manylion pob safle treftadaeth y byd yn ardal yr awdurdod;
- manylion pob ardal, safle neu le arall yn ardal yr awdurdod sydd o ddiddordeb archaeolegol neu bensaernïol ym marn yr awdurdod;
- gwybodaeth am y ffordd y mae datblygiad hanesyddol, archaeolegol neu bensaernïol ardal, neu ran o ardal, awdurdod wedi cyfrannu at gymeriad presennol yr ardal, neu ran o ardal, ac am sut y gellir cadw'r cymeriad hwnnw, a
- manylion ymchwiliadau perthnasol sydd wedi eu gwneud yn ardal yr awdurdod a manylion canlyniadau'r ymchwiliadau hynny.

7.4 Mae adran 33(9) yn galluogi Gweinidogion Cymru i ddiwygio, drwy reoliadau, y categorïau o wybodaeth y mae'n rhaid ei chynnwys mewn cofnod amgylchedd hanesyddol. Mae'r Bil yn ei gwneud yn ofynnol i Weinidogion Cymru ymgynghori ag awdurdodau cynllunio lleol ac unrhyw berson arall y maent yn ei ystyried yn briodol cyn gwneud y rheoliadau.

7.5 Mae Adran 36 yn caniatáu i Weinidogion Cymru gyflwyno canllawiau ar greu a chadw cofnodion amgylchedd hanesyddol, cyhoeddi'r cofnodion hynny a chodi tâl mewn cysylltiad â'u cyhoeddi, a gwneud trefniadau ar gyfer cyflawni swyddogaethau

mewn perthynas â chofnodion amgylchedd hanesyddol. Cyn cyflwyno'r canllawiau, rhaid i Weinidogion Cymru ymgynghori â'r awdurdodau cynllunio lleol ac unrhyw berson arall y maent yn ei ystyried yn briodol.

**Bwriad y Polisi**

7.6 Mae'r pŵer i wneud rheoliadau yn darparu hyblygrwydd i Weinidogion Cymru ddiwygio'r diffiniad o gofnod amgylchedd hanesyddol yn y dyfodol os ystyrir hynny'n angenrheidiol. Mae'r categorïau o wybodaeth sydd wedi'u cynnwys yn y Bil yn seiliedig ar gynnwys cyfredol y cofnodion amgylchedd hanesyddol. Yn y dyfodol, efallai yr ystyrir bod categorïau eraill o wybodaeth am yr amgylchedd hanesyddol yn angenrheidiol fel sail i gyngor a chamau gweithredu archaeolegol a threftadaethol eraill. Er enghraifft, efallai yr ystyrir ei bod yn briodol ei gwneud yn ofynnol cynnwys safleoedd sy'n arwyddocaol yn ddiwylliannol neu dreftadaeth anniriaethol, neu ddiwygio'r gofyniad i gynnwys 'pob safle arall... mewn ardal awdurdod' a rhoi rhestr fwy diffiniedig yn lle hynny. Caiff effeithiolrwydd y categorïau yn y Bil eu hadolygu gan Gomisiwn Henebion Cymru fel rhan o'r gwaith o fonitro meincnodau a safonau ar ran Gweinidogion Cymru.

7.7 Mae'r cais i ddiwygio'r categorïau o wybodaeth a gynhwysir mewn cofnod amgylchedd hanesyddol yn debygol o ddod o'r sector amgylchedd hanesyddol. Bydd Gweinidogion Cymru yn cysylltu'n agos â Chomisiwn Brenhinol Henebion Cymru, awdurdodau cynllunio lleol a chyrff eraill â diddordeb, megis ymddiriedolaethau archaeolegol Cymru, wrth lunio unrhyw ofyniad newydd. Yn ychwanegol, fel y mae'r Bil yn ei gwneud yn ofynnol, bydd Gweinidogion Cymru yn ymgynghori'n ffurfiol ag awdurdodau cynllunio lleol ac eraill cyn gwneud y rheoliadau.

7.8 Daw drafft o'r canllawiau sydd i gael eu cyhoeddi o dan adran 36 o'r Bil gyda'r datganiad o fwriad y polisi hwn. Mae'r drafft wedi ei rannu â Chomisiwn Brenhinol Henebion Cymru, Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru ac ymddiriedolaethau archaeolegol Cymru, a chynhelir ymgynghoriad arno ar ôl i ddarpariaethau'r Bil gael eu cadarnhau'n derfynol.

## 8. Panel Cynghori ar gyfer Amgylchedd Hanesyddol Cymru

**Pŵer**

8.1 Mae rhan 4, adran 38(7)(h) o Fil yr Amgylchedd Hanesyddol (Cymru) yn rhoi pwerau i wneud rheoliadau.

**Disgrifiad**

8.2 Mae rhan 4, adran 37 o Fil yr Amgylchedd Hanesyddol (Cymru) yn ei gwneud yn ofynnol i Weinidogion Cymru sefydlu'r Panel Cynghori ar Amgylchedd Hanesyddol Cymru. Mae Adran 38 yn gwneud darpariaeth ynghylch cyfansoddiad ac aelodaeth y panel. Mae Isadran (7) yn nodi categorïau o bobl nad ydynt yn gymwys i fod yn aelod o'r panel. Mae hyn yn cynnwys aelodau:

- Cynulliad Cenedlaethol Cymru,
- Tŷ'r Cyffredin neu Dŷ'r Arglwyddi,
- Senedd Ewrop,
- Cyngor Sir neu Gyngor Bwrdeistref Sirol, neu
- Awdurdod Parc Cenedlaethol.

8.3 Yn ogystal, bydd isadran 7(h) yn caniatáu i Weinidogion Cymru wneud rheoliadau i anghymwyso staff o gyrff eraill rhag bod yn aelodau o'r panel.

**Bwriad y Polisi**

8.4 Bydd angen i'r panel arddangos annibyniaeth, uniondeb a diduedddrwydd. Bydd y panel yn rhoi cyngor i Weinidogion Cymru ar ystod o faterion polisi, strategaeth a chyllido. Gallai llawer o'r penderfyniadau a gymerir gan Weinidogion Cymru ar y materion hyn effeithio'n uniongyrchol ar ystod o sefydliadau boed hynny o ran y polisïau y bydd yn rhaid iddynt eu gweithredu neu'r cyllid a allai gael ei ddyfarnu iddynt (neu beidio). Mae'r categorïau o bobl sy'n cael eu hystyried ar gyfer eu gwneud yn anghymwys fel a ganlyn:

- staff a gyflogir gan Lywodraeth Cymru,
- staff a gyflogir gan Gomisiwn Brenhinol Henebion Cymru, a
- staff a gyflogir gan y pedwar ymddiriedolaeth archaeolegol yng Nghymru.

8.5 Ni fydd yn bosib cael gwared ar wrthdaro buddiannau yn gyfan gwbl, gan mai cyfyngedig yw nifer y bobl sydd â'r arbenigedd, y sgiliau a'r wybodaeth angenrheidiol. Caiff protocolau gweithredu eu defnyddio i ddelio ag unrhyw wrthdaro buddiannau posibl y tu hwnt i'r rhai a bennir yn y ddeddfwriaeth a'r rheoliadau.